Elusen Gofrestredig 253231
Ffôn 01690 720287
www.snowdonia-society.org.uk
Tŷ Hyll, Capel Curig, LL24 0DS

DYDDIADUR DIGWYDDIADAU
Mawrth – Medi 2010

Cynlluniwyd ein rhaglen ddigwyddiadau i gynnig gwell dealltwriaeth a mwynhad o Eryri. O deithiau mynyddig i sgyrsiau difyr, mae yma rywbeth i bawb. Darllenwch y manylion a'r nodiadau'n ofalus a chofiwch gofrestru eich diddordeb gyda swyddfa'r Gymdeithas, oherwydd cyfyngir ar y nifer o bobl ar y rhan fwyaf o'r digwyddiadau. Edrychwn ymlaen at eich gweld mewn digwyddiad yr haf hwn!

31 Maw	**DANGOS *AGE OF STUPID,*** 7 pm yn Y Galeri, Caernarfon. Bu cryn drafod ar y ffilm *Age of Stupid* yn 2009. Mae gŵr sy'n byw ei hun ym myd y dyfodol yn 2055 yn edrych ar hen ffilm o 2008 ac yn gofyn: pam na wnaethon ni roi diwedd ar newid hinsawdd pan gawsom gyfle? Ffilm y mae'n rhaid ei gweld, am ddim i aelodau a £2 i rai nad ydynt yn aelodau i gynnwys tocyn raffl. Gwobrau'n cynnwys llyfrau a thalebau.
7 Ebrill	**DAEAREG A THIRWEDD CWM IDWAL.** Bydd Paul Gannon, awdur *Rock Trails Snowdonia*, yn ein harwain drwy dirwedd folcanig a rhewlifol hardd Cwm Idwal. Dewch i weld tirwedd fwyaf trawiadol Eryri a dysgu sut y'i ffurfiwyd. Dewch â phecyn cinio, diodydd a dillad awyr agored priodol. Cyfarfod am 10 y bore wrth Ganolfan y Wardeiniaid yn Ogwen, SH 649603.
24 Ebrill	**GWEITHREDU'R GWANWYN - TAITH DYWYS I GODI ARIAN** a arweinir gan Margaret Thomas gyda Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru. Crwydro'r goedlan y gwanwyn hwn gyda thaith 5-milltir drwy Goedwig Gwydir a gwarchodfa natur Cors Bodgynydd. Bydd y daith yn eich tywys ar draws tir amrywiol gydag adrannau serth a gwlyb. Cyfarfod am 10.30 y bore ym maes parcio Tŷ Hyll. £2 i bawb sy'n cymryd rhan, ac unrhyw arian nawdd a geir! Gweler y wefan neu cysylltwch â'r Gymdeithas am ffurflen gais/manylion. Rhaid archebu lle.
9 Mai	**MEGALITHAU A GWAITH MANGO,** arweinydd Max Grant. Taith fynyddig hamddenol ar hyd gogledd y Rhinogydd heibio gwaith mango a chofebion megalithig. Gan alw heibio Bryn Cader Faner trawiadol, gobeithiwn ddringo Moel Ysgyfarnogod a Moel Penolau ar daith o rwng 5 a 6 awr. Cyfarfod am 10 y bore oddi ar yr A496 i'r gogledd o Harlech ger cyffordd y B4573, SH 607350.
15-16 Mai	**SÊL BLANHIGION TŶ HYLL -** gyda phwyslais ar blanhigion er budd bywyd gwyllt. Gweithgareddau eraill megis gweithdy gwneud bagiau clwt, gwerthu llyfrau ail law ac arddangosiad o nyddu. Croesewir llyfrau a phlanhigion! Gweler ein gwefan am fanylion/ffoniwch 01690 720287.
24 Mai	**MORDAITH FYWYD GWYLLT O BWLLHELI AR HYD PENRHYN LLŶN**. Mordaith y machlud sy'n gadael Pwllheli am 6.15 ac yn ymweld â chartrefi morloi ac adar môr ar Ynysoedd Sant Tudwal a chlogwyni trawiadol Pen Cilan (lle mae cyfle da i ni weld dolffiniaid). Cawn egwyl wrth y clogwyni nepell o Borth Neigwl a golygfa dda o'r machlud dros Ynys Enlli – man perffaith ar gyfer swper picnic. Dychwelyd i Bwllheli gyda'r gwyll. Rhaid archebu lle – cyfyngir ar y nifer o deithwyr. £27.50 i aelodau a'u gwesteion yn unig.
6 Meh	**PLANHIGION ARCTIG ALPAIDD AR YR WYDDFA** a arweinir gan Rob Collister. Crwydro Cwm Glas yn uchel ar lethrau Crib Goch a Chrib y Ddysgl i chwilio am y planhigion o oes yr iâ. Gall fod yn serth ac uchel ac ni fyddwn yn dilyn llwybrau. Dewch â phecyn cinio, dillad glaw a dillad cynnes. Gwisgwch esgidiau priodol ar gyfer taith fynyddig. Dim cŵn. Cyfarfod am 9.45 am ym maes parcio Nant Peris. Rhaid archebu lle, cysylltwch â Sarah ar 01690 720287.
10 Meh	**DIWRNOD AGORED ARDD FYWYD GWYLLT TŶ HYLL A BORE COFFI** – 11 y bore tan 4. Dewch i Tŷ Hyll i weld y gwaith bendigedig a wneir gan wirfoddolwyr yn yr ardd a'r coedlannau ac i sgwrsio â staff a gwirfoddolwyr am faterion y Gymdeithas. Manylion ar y wefan neu ffoniwch 01690 720287.
11-12 Meh	**PENWYTHNOS CYMDEITHASAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMREIG** yn sir Benfro. Cyfle i aelodau'r tair Cymdeithas i gyfarfod a chrwydro Parciau Cenedlaethol Cymreig eraill. Gweler ein gwefan neu cysylltwch â ni ar 01690 720287 am fanylion.
13 Meh	**CYSTADLEUAETH CODI CLODDIAU CERRIG SYCH** Cynhelir ein cystadleuaeth flynyddol i ddathlu gwerth y grefft draddodiadol hon yn Hafod y Llan wrth droed Yr Wyddfa. Bydd yn rhan o Fferm Agored y Sul, a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, felly hyd yn oed os nad ydych am gystadlu dewch draw am dro ac i fwynhau'r gweithgareddau eraill. Does dim rhaid i chi fod yn waliwr da - mae gennym gategorïau ar gyfer amatur, rhan-broffesiynol a phroffesiynol. Cysylltwch â Sarah ar 01690 720287 neu ewch i'n gwefan am fanylion a ffurflen.
23 Meh	**REID BEIC GYDA'R NOS** gyda Rob Collister. Taith 2-3 awr yn yr ardal rhwng Rowen a Llanfairfechan, egnïol (rhai elltydd hir) ond nid yn rhy dechnegol. Pryd yn Nhafarn y Groes i ddilyn. Cyfarfod am 5.30 yr hwyr yn y gilfan islaw coed Parc Mawr, Henryd (SH 761745).
6 Gorff	**LANSIO MANIFFESTO PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU** yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Byddai'n wych cael eich cefnogaeth yn y derbyniad amser cinio hwn. Bydd manylion llawn ar ein gwefan cyn bo hir, neu ffoniwch 01690 720287.
15 Gorff	**GWEITHDY CYFEIRIANNU MYNYDD** gyda Christian Lenehan. Cyflwyniad i fedrau cyfeiriannu sylfaenol ar y mynyddoedd (darllen map, medrau cwmpawd, camu, ayyb). Rhaid i fynychwyr fod yn eithaf ffit a gwisgo dillad ac esgidiau cerdded priodol. Dewch â chwmpawd a map OL 18. Cyfarfod am 6 yh ym maes parcio'r YG ger Tomen y Mur i'r dwyrain o Atomfa Trawsfynydd, SH 707389. Mae'r gweithdy am ddim ond byddwn yn casglu cyfraniadau ar gyfer y tîm achub mynydd lleol.
3 Awst	**YSTLUMOD A GWYFYNOD TŶ HYLL** gyda Julian Thompson a Kate Williamson. Bydd Kate yn edrych drwy ein blychau ystlumod am unrhyw weithgaredd ac yn dangos rhai o ystlumod Tŷ Hyll i ni, tra bydd Julian yn ein helpu i gynnal cyfrif o'r gwyfynod ar dir Tŷ Hyll. Byddwn hefyd yn dysgu am ddulliau trapio a gwyfynod ein coedlannau. Gwisgwch ddillad cynnes a dewch â fflachlamp! Croeso i blant.
21 Awst	**GEIFR GWYLLT ERYRI** gan Debbie Wareham. Bydd Debbie yn ein tywys ar daith gerdded o amgylch llethrau isaf Tryfan lle gobeithiwn weld heidiau o eifr yn bwydo – bydd yn sgwrsio â ni am fioleg, ecoleg, perthnasau cymdeithasol, gwreiddiau a chadwraeth yr anifeiliaid difyr yma. Cyfarfod ym maes parcio Gwern Gof Uchaf, SH 674605 am 10 y bore a dewch ag esgidiau, dillad glaw a phecyn cinio. Byddai ysbienddrych yn ddefnyddiol. Bydd y daith yn parhau oddeutu 4 awr.
7 Medi	**GOROESI MEWN MAN HYFRYD: ERYRI** – darlith gan Huw Jenkins am 7.30 yh yn y Stablau, Plas Tan y Bwlch. Bydd Huw yn cyflwyno casgliad o'i lyfr o'r un enw, a gysylltir gan thema goroesi. Ymysg ei bynciau mae planhigion a bywyd gwyllt, yn ogystal â chrefftau gwledig a chymunedau. Mae'r ddarlith yn dathlu cynaladwyedd. Am ddim i aelodau, £4 i rai nad ydynt yn aelodau, i gynnwys tocyn raffl. Tocynnau raffl ychwanegol ar gael am £2 yr un. Ymysg y gwobrau mae tanysgrifiadau i *Natur Cymru.*
18 Medi	**TAITH DANDDAEAROL ER COF AM MIKE COUSINS** - Eleni byddwn yn fforio chwarel lechi Rhiw Bach. Cyfarfod wrth yr arosfa fws y tu allan i'r chwarel am 11 y bore. SH 752472. Gwisgwch hen ddillad/dillad glaw a welingtons a dewch â'ch fflachlamp pen eich hun a phecyn cinio. Bydd y daith yn parhau oddeutu 4/5 awr a bydd yn cynnwys cerdded i fyny elltydd serth. Rhaid archebu lle oherwydd cyfyngir ar y nifer o bobl. Cyfraniad o £3 yr un i Gymdeithas Eryri a Chymdeithas Archwilio Pen y Gogarth.

Hoffai'r Gymdeithas ddiolch i Gyngor Chwaraeon Cymru am gefnogi ein rhaglen o deithiau cerdded.

RHOIR MANYLION DYDDIAU GWAITH CADWRAETH YMARFEROL DROS Y DUDALEN

- Er y bydd y Gymdeithas yn gwneud pob ymdrech i lynu at y rhaglen uchod, dylech gofrestru eich diddordeb gyda'r Gymdeithas rhag ofn y bydd rhaid gwneud newidiadau neu ohirio'r digwyddiad.
- Mae pawb sy'n cymryd rhan yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain ac mae gan arweinydd y digwyddiad yr hawl i wrthod unrhyw un y teimla nad ydynt yn berchen ar offer priodol/addas. Mae manylion llawn ynglŷn â diogelwch ac yswiriant ar gael ar ddechrau pob taith, neu cysylltwch â'r Gymdeithas.
- **Yn aml mae digwyddiadau am ddim i aelodau. Os nad ydynt, nodir y prisiau yn y rhaglen uchod.** Gofynnir i'r rhai nad ydynt yn aelodau roi cyfraniad o £5 ar gyfer costau gweinyddu'r digwyddiadau am ddim.

COFIWCH AM GYFARFOD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS AR 13eg TACHWEDD – NODWCH Y DYDDIAD!

DYDDIAU CADWRAETH YMARFEROL
Mis Ebrill – Mis Hydref 2010

Mae'r Gymdeithas yn trefnu rhaglen gyson o waith cadwraeth ymarferol er mwyn cynnal a chadw harddwch naturiol Eryri, ei thirwedd a'i bywyd gwyllt. Dyma gyfle i chi gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r Parc Cenedlaethol ac i faeddu eich dwylo! Mae gennym hefyd nifer o bethau eraill i wirfoddolwyr eu gwneud – cysylltwch â'r swyddfa am fanylion.

PROJECT CADWRAETH ERYRI – Rhywbeth i bawb!

Mae **Project Cadwraeth Eryri** yn tyfu ac yn datblygu fwyfwy. Wrth adeiladu ar ein gwaith gwirfoddoli llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein noddwyr wedi cydnabod gwerth ein gweithgareddau drwy ein gwobrwyo gyda rhagor o arian nawdd; dipyn o gamp yn yr hinsawdd ariannol bresennol a *phluen yn het pob un ohonoch* sydd wedi cynorthwyo ac wedi cyfrannu at ein gweithgareddau cadwraeth **- diolch i bawb!**

Dros y misoedd i ddod, bydd **Gwirfoddoli er Cadwraeth** yn mynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n effeithio ar ein hamgylchedd naturiol. Byddwn yn ymateb i faterion wrth iddynt ymddangos, drwy gasglu sbwriel a thrwsio llwybrau, ac yn parhau â'n mentrau tymor hir, megis clirio Rhododendron o Hostel Ieuenctid Bryn Gwynant a sbwriel o draeth Harlech ar ein gwaith Glanhau Blynyddol. Byddwn yn atgyfnerthu ein cysylltiadau â Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol ac asiantaethau amgylcheddol eraill o amgylch y Parc Cenedlaethol, felly rydych yn debygol iawn o weld llawer o weithio mewn partneriaeth dros y misoedd i ddod. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda sicrhau bod eich gweithgareddau gwirfoddoli'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir, felly cofiwch ddod draw i'n cefnogi. Gyda'n gilydd gallwn ddangos i bawb sy'n cydweithio â Chymdeithas Eryri ein bod o ddifrif ynglŷn ag effeithio ar ein hamgylchiadau naturiol bregus - ac nad ydym yn poeni *am faeddu'n dwylo!!*

Serch hynny, os nad oes gennych awydd baeddu'ch dwylo, beth am ein cynorthwyo gyda'n *menter Bagiau Clwt*, sy'n rhan o'n cangen **Ymwneud â'r Gymuned**. Byddwn yn cynyddu ein gweithdai i wneud bagiau clwt wedi eu hailgylchu er mwyn hyrwyddo opsiynau byw mwy cynaliadwy ac annog grwpiau cymunedol sy'n dymuno lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd i fabwysiadu dulliau byw a dewisiadau sy'n gweddu'n well gyda byw mewn Parc Cenedlaethol. I wneud yn fawr o lwyddiant hyn, mae angen eich cymorth arnom – drwy ein hysbysu am gymunedau â diddordeb a gyda chymorth ymarferol yn ystod y gweithdai a gynhelir gennym a'r ffeiriau lle byddwn yn trefnu arddangosiadau.

Mae hi'n ymddangos eisoes y bydd yn dymor prysur i ni ac mae arnom angen cymaint o wirfoddolwyr â phosibl, felly os nad ydych wedi gwirfoddoli yn y gorffennol neu os ydych yn gwneud llai o weithgareddau yn y blynyddoedd diwethaf dewch draw i'n gweld. ***Mae yma rywbeth i bawb*** ac os oes gennych syniadau ar gyfer digwyddiadau eraill **cysylltwch â Bea Kelsall, eich Swyddog Project, ar 01690 720287 neu ar volunteer@snowdonia-society.org.uk**. Cyhoeddir gweithdai misol ychwanegol ar ein gwefan www.cwmdeithas-eryri.org.uk neu gallwn bostio manylion i chi os nad ydych ar lein.

Dyddiadau dyddiau gwirfoddoli rheolaidd y 'Dydd Mawrth Cyntaf'

Dydd Mawrth 6 Ebrill
Dydd Mawrth 4 Mai
Dydd Mawrth 1 Mehefin
Dydd Mawrth 6 Gorffennaf
Dydd Mawrth 3 Awst
Dydd Mawrth 7 Medi
Dydd Mawrth 5 Hydref

Garddio Bywyd Gwyllt a Gweithgareddau Cadwraeth y Coetiroedd ar foreau Llun

Mae ein garddwyr rheolaidd yn cyfarfod bron bob dydd Llun am 10 y bore yng nghartref y Gymdeithas, Tŷ Hyll. Maent yn sicrhau bod ein 5 erw o goetiroedd a'r gerddi teras godidog yn croesawu bywyd gwyllt ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae arnom angen cymorth ychwanegol bob amser, felly dewch draw i gynorthwyo.
Maent yn griw hwyliog iawn!

NODIADAU

- Os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith cysylltwch â Tŷ Hyll er mwyn i ni allu ychwanegu eich enw at ein bas data o wirfoddolwyr. Byddwn wedyn yn gallu anfon y manylion diweddaraf atoch.
- Os ydych chi'n bwriadu cymryd rhan yn unrhyw un o'r dyddiau gwaith uchod, cofiwch ddweud wrth y Trefnydd Gwirfoddolwyr er mwyn cael manylion llawn am y lleoliad, unrhyw gyfarwyddiadau arbennig ayyb.
- Mae pawb yn cymryd rhan ar ei gyfrifoldeb ei hun ac mae gan arweinydd y digwyddiad yr hawl i wrthod cymryd unrhyw un nad yw'r gweithgaredd ym marn yr arweinydd yn addas ar ei gyfer, neu unrhyw un nad oes ganddo'r dillad neu'r offer priodol. Mae manylion llawn ynghylch diogelwch ac yswiriant i'w cael ar ddechrau pob diwrnod gwaith neu o swyddfa'r Gymdeithas.
- Gall unrhyw un wirfoddoli - aelodau a'r sawl nad ydynt yn aelodau fel ei gilydd.
- Os oes gennych syniadau ar gyfer y dyfodol neu os ydych am helpu, cysylltwch â Tŷ Hyll!
- Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i'w chael ar www.cymdeithas-eryri.org.uk

01690 720287 www.cymdeithas-eryri.org.uk
Tŷ Hyll, Capel Curig, Conwy, LL24 0DS Elusen gofrestredig 25323